# Cynaliadwyedd yn Aberystwyth

## CYNALIADWYEDD YM MHRIFYSGOL ABERYSTWYTH

Rydyn ni'n byw trwy argyfwng hinsawdd. Yn Aberystwyth, rydyn ni'n arwain y sector gyda'n huchelgais i ddod yn gampws carbon niwtral erbyn 2030. Bydd pob cam bach y gallwch chi ei gymryd yn helpu wrth i ni weithio tuag at y targed uchelgeisiol hwn.

## CYMRYD RHAN

Sganiwch y cod QR i edrych ar dudalennau ein gwefan i weld manylion ein polisi cynaliadwyedd, beth rydym yn ei wneud a sut y gallwch chi gymryd rhan!

## GWAITH CYFREDOL

Ers 2020, rydyn ni wedi buddsoddi dros £6M mewn mesurau effeithlonrwydd ynni fel goleuadau LED a £3.3M mewn prosiectau ynni adnewyddadwy. Rydyn ni hefyd yn bwriadu plannu dros 90,000 o goed erbyn 2025, ac 16,000 wedi'u plannu eisoes.

## SUT Y GALLWCH CHI HELPU?

Daw'r rhan fwyaf o allyriadau CO2 PA o wresogi, defnyddio trydan a theithio. Gall y camau gweithredu yn y rhestr ganlynol helpu i leihau ein heffeithiau amgylcheddol:

1. Gwiriwch eich rheiddiaduron am rwystrau a bod ganddynt lif da o aer
2. Trowch y rheiddiaduron i lawr pan nad ydych o gwmpas
3. Cadwch eich ffenestri ar gau pan fydd y gwres ymlaen
4. Berwch y mesur o ddŵr sydd ei angen arnoch yn unig
5. Diffoddwch oleuadau a chyfarpar pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
6. Defnyddiwch gaead ar sosbenni
7. Rhowch lwythi llawn yn y peiriant golchi
8. Cymrwch gawodydd byrrach i arbed dŵr
9. Defnyddiwch drafnidiaeth gyhoeddus, cerddwch neu feiciwch yn hytrach na gyrru
10. Datgysylltwch eich dyfeisiadau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio

Cysylltwch â'r tîm cynaliadwyedd os oes gennych unrhyw gwestiwn, adborth neu awgrymiadau, ar hasstaff@aber.ac.uk

eco ABER

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY